



Eich cyf/Your ref P-05-1146
Ein cyf/Our ref JJ/00555/21

Janet Finch-Saunders MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
deisebau@senedd.cymru

5 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror yn gofyn am farn ar ddeiseb P-05-1146 Dylid darparu map trywydd ar gyfer sut y gall priodasau gael eu cynnal yng Nghymru.

Rwy'n deall yr effaith mae'r cyfyngiadau yma wedi ei gael ar gyplau sy' eisiau priodi. Yn arbennig rwy'n deall yr ansicrwydd sy'n cael ei greu oherwydd ei bod yn amhosib rhagweld stad y feirws ar effaith caiff hyn ar gynlluniau.

O dan gyfyngiadau cyfredol Lefel Rhybudd 4 mae'n bosib cynnal seremoni priodas mewn man addoli a Swyddfeydd Gofrestri, ac o 1 Mawrth bydd caniatâd i gynnal seremoni priodas neu bartneriaeth sifil mewn unrhyw leoliad sydd wedi'u cymeradwyo ag sydd â thrwydded i gynnal seremoni priodas neu bartneriaeth sifil sy'n cynnwys gwestai ac atyniadau twristiaid. Bydd y penderfyniad p'un ai i agor neu beidio yn un i'r sawl sy'n gyfrifol am yr adeilad. Yr asesiad risg bydd y person sy'n gyfrifol am yr adeilad yn ei baratoi fydd yn pennu'r nifer fydd yn medru cael ei gwahodd i fynychu'r seremoni.

Medru'r cynnal brechwast priodas yn lefelau rhybudd 1 i 3 yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau ar y sector lletygarwch. Mae'r nifer sy'n medru mynychu wedi ei rhagnodi yn y Rheoliadau ac yn amrywio yn ôl y lefel rhybudd fydd mewn grym ar y pryd ac os yw'r digwyddiad o dan do neu yn yr awyr agored. Nid yw'r ffigyrau yma yn cynnwys plant 11 oed ac iau. Mae'r nifer sy'n medru ymgynnull mewn digwyddiad cymdeithasol wedi eu cyfyngu oherwydd bod y feirws yn ffynnu pan mae cyswllt agos estynedig rhwng pobl yn enwedig mewn cynulladau cymdeithasol. Eglurir hyn yn y cyngor diweddar gan y Grŵp Cyngor Technegol - [y dystiolaeth bresennol mewn perthynas â phriodasau](#).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â disgrifio'r cyfangiadau ar gyfer pob lefel rhybudd, yn cynnwys y nifer gall fynychu derbyniad priodas mae'r ['Cynllun rheolir coronafeirws: lefelau rhybudd yng Nghymru'](#) hefyd yn disgrifio'r criteria ar gyfer symud o un lefel rhybudd i un arall. Nid yw'n cynnwys dyddiadau oherwydd nad yw'n bosib rhagweld pryd fyddwn ni'n cyrraedd y criteria i symud o un lefel rhybudd i un arall. Er bod rhoi'r rhaglen frechu ar waith yn cynnig anogaeth mae ansicrwydd yn parhau am gyflwr y pandemig, a'i effaith dychrynlyd sy'n golygu na fedwn symud ymhellach na'r cynllun rheoli ei hun.

Ers dechrau'r pandemig mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod mwy na £2 biliwn ar gael i gefnogi busnes gyda mwy na £1.7 biliwn mewn cyfrifon. Ar gyfer y cyfyngiadau diweddaraf mae £650 miliwn ar gael sy'n golygu bod pob busnes bach mewn adeilad ardrethol yn derbyn rhwng £6 mil a £10 mil. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cronfa £180 miliwn Cymorth Penodol i'r Sector yr ERF i'r sectorau Twristiaeth, Lletygarwch a Hamdden a'r gadwyn gyflenwi a fyddai'n golygu er enghraifft bod lleoliad priodas sy'n cyflogi deg aelod o staff yn derbyn hyd at £15 mil ychwanegol. Mae cronfeydd eraill o arian yn cynnwys y Gronfa Lawrydd a Chronfeydd yn ôl Disgresiwn sy'n cael eu gweinyddi gan Lywodraeth leol. Mae'r holl wybodaeth am unrhyw gronfeydd sydd ar gael ar <https://businesswales.gov.wales/cy>.

Wrth gwrs bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i werthuso'r gefnogaeth sydd agen wrth i'r sefyllfa ddatblygu gan gynnwys deall anghenion sectorau penodol wedi'u cydweddi gyda'r lefelau rhybudd yng Nghymru.

Mae swyddogion a Gweinidogion yn cwrdd gyda'r Grŵp Rhanddeiliad Priodasau Cymru sydd wedi cael ei sefydlu gan y sector i drafod y sialensiau sy'n wynebu'r sector yn ystod y pandemig cyn cynnwys cynlluniau cefnogaeth ariannol, criteria ar gyfer ail-agor pan mae'n ddiogel i wneud hynny ayb. Mae'r trafodaethau yma yn ystyried yr effaith ar y gadwyn gyflenwi ehangach a'r cyplau sy'n cael ei heffeithio gan y pandemig.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government